# Amrywiaeth ar fyrddau cymdeithasau tai Cymru: 2023

## 1. Cyflwyniad

Mae Byrddau Cymdeithasau Tai yn cyflwyno ffurflenni blynyddol i reoleiddiwr Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth aelodau eu byrddau.  Ers 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn casglu data am amryw o nodweddion gwarchodedig aelodau byrddau.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o amrywiaeth ar fyrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCCau) 2023. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r sefyllfa dros ystod o flynyddoedd, ac yn ei chymharu ag amrywiaeth o fewn y boblogaeth ac ymhlith tenantiaid. Mae'r adroddiad yn defnyddio data amrywiaeth LCCau gafodd eu casglu gan Lywodraeth Cymru ers 2014. [1]

Cyflwynir ystadegau am amrywiaeth o fewn y grwpiau canlynol:

- Byrddau LCCau – lle mae cymdeithasau tai yn rhan o strwythur grŵp, dyma fyddai bwrdd y prif LCC fel rhan o'r strwythur
- Byrddau gan gynnwys is-fyrddau – yn cyflwyno data ar gyfer pob bwrdd, gan gynnwys rhiant fyrddau ac is-fyrddau lle mae LCC yn rhan o strwythur grŵp
- Cadeiryddion – cyflwynir data ar gyfer cadeiryddion byrddau LCC.

**Data:** Daeth y rhan fwyaf o ddata cymharu'r boblogaeth a thenantiaid cymdeithasol o Gyfrifiad 2021 ac, o'r herwydd, mae'n bosibl na fyddant yn cyflwyno darlun cyfredol o'r amrywiaeth yn y boblogaeth yng Nghymru.[2]

[1] Dylid nodi nad oedd yr holl ddata amrywiaeth wedi'u casglu ers 2014, felly mae rhai tablau yn yr adroddiad ond yn cynnwys data o flynyddoedd diweddarach.
[2] Cydnabyddir, er mwyn i gymariaethau fod yn ystyrlon ar lefel leol, y dylai sefydliadau ddefnyddio data lleol yn hytrach na chenedlaethol.

# 2. Prif Ganfyddiadau

- Mae cyfran y cadeiryddion sy’n fenywod (35%) wedi cwympo 9% ers 2020 pan roedd 44% yn fenywod.
- Mae proffil oed aelodau byrddau wedi aros yn fras yr un peth, ar ôl gostyngiad cyflym yn y gyfran dros 65 oed yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Gwelwyd gostyngiad arall o 7% yn y gyfran sy’n 65+ oed o blaid y grŵp 45-64 oed
- Mae cyfran yr aelodau sy’n bobl Ddu, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig yn parhau i godi ac mae bellach yn 9%. Nid oes un o’u plith yn gadeirydd.
- Pobl anabl yw’r grŵp sydd wedi’i dangynrychioli fwyaf ymhlith aelodau byrddau o hyd, gyda 9% yn 2023. Ar y llaw arall, cododd cyfran y bobl anabl sy’n gadeiryddion i 6% eleni.
- Mae pobl hoyw, lesbiaid a deurywiol fel grŵp wedi’u cynrychioli’n dda o hyd.
- Nid oedd unrhyw bobl draws yn aelod o fwrdd.
- Mae’r gyfran sy’n medru’r Gymraeg yn dal i fod ychydig yn uwch ymhlith aelodau byrddau LCCau nac yn y boblogaeth yn y gyffredinol.


# 3. Newid ers llynedd

| Grwpiau | Newid 2023 | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| Menywod |  | Mae cyfran y menywod ar fyrddau LCC wedi aros yr un peth (43%), gyda 3% yn llai o gadeiryddion yn fenywod (35%) a 2% o gynnydd yn yr is-fyrddau. |
| Dros 65 oed |  | Mae cyfran aelodau byrddau sydd dros 65 oed wedi aros yn fras yr un peth ers 2020 (16-18%) ar ôl gostyngiad cyflym yn y blynyddoedd cynt. Yn 2023, gwelwyd cwymp mawr arall o 7% yn y cadeiryddion 65+ o’i gymharu â chynnydd yn y bobl 45-64 oed. |
| Pobl iau |  | Ar ôl cynnydd i ddechrau yng nghyfran y bobl 30-44 oed ar fyrddau ac yn gadeiryddion, mae’r ffigurau wedi aros yn fras yr un peth, er i gadeiryddion fynd ychydig yn iau (fel yr uchod). |
| Pobl ddu, Asiaidd, lleiafrifoedd ethnig |  Aelodau byrddau | Mae cyfran aelodau byrddau ac is-fyrddau LCC sy’n bobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu 2% unwaith eto ar gyfer y ddau grŵp. Mae hynny’n duedd bositif. Mae pob cadeirydd yn dal yn wyn. |
| Pobl anabl |  | Gwelwyd cynnydd yng nghyfran y bobl anabl sy’n gadeiryddion o 3% yn 2021 i 9% yn 2023, er bod y ffigur hwnnw dal yn isel. Pobl anabl yw’r grŵp sydd wedi’i dangynrychioli fwyaf ar fyrddau cymdeithasau tai er yn 2023, ni welwyd gostyngiad pellach yn y gyfran sy’n aelodau o fyrddau. |
| Hoyw, deurywiol, arall |  | Mae'r grŵp hwn yn cael ei gynrychioli'n dda ar fyrddau LCC, gyda chynnydd o 6% ymhlith cadeiryddion yn 2023. |
| Iaith Gymraeg |  | Mae sgiliau siarad a darllen Cymraeg cadeiryddion ac aelodau byrddau LCCau dal i fod ychydig yn uwch nag yn y boblogaeth yn gyffredinol. |

| | | |
|---|---|---|
| Rhywedd | ⬌ | Yn 2023, fel blwyddyn yn ôl, nid oedd yna aelodau byrddau na chadeiryddion oedd yn uniaethu fel rhywedd oedd yn wahanol i'r hyn a gofrestrwyd adeg eu geni. |

# 4.Rhywedd


- Mae cyfran y menywod ar fyrddau cymdeithasau tai (43%) wedi aros yn fras yr un peth ers 2017.
- O ran menywod ar fyrddau gan gynnwys is-fyrddau, gwelwyd cynnydd o 2% i 41% yn 2023.
- Bu gostyngiad o 9% yng nghyfran y cadeiryddion sy'n fenywod (35%) ers 2020 ac ymysg cadeiryddion y mae menywod wedi'u tangynrychioli fwyaf o hyd o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.
- Roedd data a gafodd eu cyflwyno yn cyfuno'r opsiwn "Dewis peidio Dweud" ag "Arall", ac felly nid oes modd dadansoddi'r rhai sydd y tu allan i'r rhywiau deuaidd.





Ffig 1: Data rhyweddau byrddau LCCau 2023 a blynyddoedd cynt

Female – Benywaidd     Male – Gwrywaidd     Prefer not to say – Dewis peidio dweud

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 51% o boblogaeth Cymru'n fenywod a 49% yn ddynion ac roedd 54% o denantiaid cymdeithasol yn fenywod a 46% yn ddynion.




Ffig 2: Data rhyweddau byrddau gan gynnwys is-fyrddau LCCau 2023 a blynyddoedd cynt




Ffig 3: Data rhyweddau cadeiryddion LCCau 2023 a blynyddoedd cynt

# 5. Oedran


- Mae cyfran aelodau byrddau sydd dros 65 oed wedi aros yn fras yr un peth ers 2020 (16-18%) ar ôl gostyngiad cyflym yn y blynyddoedd cynt. Yn 2023, gwelwyd cwymp mawr arall o 7% yn y cadeiryddion 65+, o'u cymharu â chynnydd o 9% yn y cadeiryddion 45-64 oed.
- Ar ôl cynnydd i ddechrau yng nghyfran y 30-44 oed ar fyrddau ac yn gadeiryddion, mae'r ffigurau wedi aros yn fras yr un peth, er i gadeiryddion fynd ychydig yn iau (fel yr uchod).



Ffig 4. Data oed byrddau LCC 2023 a blynyddoedd cynt.





Ffig 5. Data oed is-fyrddau LCC 2023 a blynyddoedd cynt.




Ffig 6. Data oed cadeiryddion LCC 2023 a blynyddoedd cynt.


# 6. Hil

- Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 6.3% o bologaeth Cymru a 5.2% o'i thenantiaid cymdeithasol yn bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig amrywiol (heblaw am wyn).
- Mae cyfran aelodau byrddau (9%) ac is-fyrddau (8%) LCC sy'n bobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu 2% unwaith eto ar gyfer y ddau grŵp. Mae hynny'n duedd bositif.
- Yn 2022, fel mewn blynyddoedd cynt, roedd pob cadeirydd cymdeithas tai yn wyn, ac anogir mwy o amrywiaeth ymhlith cadeiryddion.




Ffig 7. Aelodau byrddau LCC sy'n lleiafrifoedd ethnig: 2023 a blynyddoedd cynt.


Black, Asian or minority ethnic – Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig
Prefer not to say/not declared – Dewis peidio dweud/ heb ddatgan





Ffig 8. Aelodau byrddau ac is-fyrddau LCC sy'n lleiafrifoedd ethnig: 2023 a blynyddoedd cynt.

# 7 Anabledd


- Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 22% o boblogaeth Cymru'n cael eu hystyried yn anabl o dan Ddeddf Anabledd 2010. Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 34% o denantiaid cymdeithasol yn anabl.
- Pobl anabl yw'r grŵp sy'n cael ei dangynrychioli fwyaf ar fyrddau cymdeithasau tai er i'r cyfran (9%) aros yn fras yr un peth ers 2020 ar ôl gostyngiad sylweddol
- Cynyddodd cyfran y cadeiryddion anabl o 3% yn 2021 i 9% yn 2023 er ei fod yn dal i fod yn isel.




Ffig 8. Aelodau byrddau sy'n anabl: 2023 a blynyddoedd cynt.




Ffig 9. Aelodau byrddau ac is-fyrddau sy'n anabl: 2023 a blynyddoedd cynt.





Ffig 10. Cadeiryddion LCCau sy'n anabl: 2023 a blynyddoedd cynt.


Disabled – Anabl Prefer not to say – Dewis peidio dweud

# 8. Cyfeiriadedd rhywiol


- Mae Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 3% o bobl dros 16 oed yng Nghymru yn Hoyw, Deurywiol neu â chyfeiriadedd rhywiol heblaw am syth, a bod 3.3% o denantiaid cymdeithasol yn perthyn i'r grŵp hwn.
- Mae'r grŵp wedi'i gynrychio'n dda ar Fyrddau gan gynnwys is-fyrddau LCCau ac ymhlith cadeiryddion, gyda chynnydd o 6% ymhlith cadeiryddion yn 2023.




Ffig 11. Aelodau byrddau LCC sy'n bobl hoyw, deurywiol ac eraill (heblaw am bobl syth): 2023 a blynyddoedd cynt.




Ffig 12. Aelodau byrddau (gan gynnwys is-fyrddau) LCCau sy'n bobl hoyw, deurywiol ac eraill (heblaw am bobl syth): 2023 a blynyddoedd cynt.




Ffig 13. Cadeiryddion LCCau sy'n bobl hoyw, deurywiol ac eraill (heblaw am bobl syth): 2023 a blynyddoedd cynt.

# 9. Hunaniaeth Rhywedd

2023 oedd yr ail flwyddyn i ddata am hunaniaeth rhywedd gael eu casglu. Fel yn y flwyddyn cynt, nid oes aelodau na chadeiryddion byrddau sy'n uniaethu fel rhywedd gwahanol i'r hyn a gofrestrwyd adeg eu geni.

# 10. Iaith Gymraeg

## 10.1. Cyflwyniad

Cyflwynir data o Arolwg Blynyddol o Boblogaeth Cymru (APS) [3] 2021 isod. Bydd darllenwyr yn gweld fodd bynnag nad yw hyn yn cael ei ddadansoddi yn ôl lefel sgiliau iaith. Mae'r data am fyrddau a gyflwynir i'r rheoleiddiwr, yn rhannu sgiliau yn lefelau. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi grwpio unrhyw allu i siarad neu ddarllen Cymraeg o dan un categori: "meddu ar sgil" er ei fod yn cael ei gydnabod y gall rhai sgiliau fod yn sylfaenol iawn. Rydym wedi cymharu hyn â'r data APS sydd ar gael ar gyfer pobl dros 25 oed.

**Data yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth**


**Siarad**
- Pobl 25–64 oed – 29.5% yn gallu siarad Cymraeg (heb wahaniaethau mawr rhwng grwpiau oedran)
- Pobl 16 – 24 oed – 42.3% yn medru siarad Cymraeg

**Darllen**
- Pobl 25–64 oed – 25.9% yn gallu darllen Cymraeg (gyda gwahaniaethau bychan rhwng grwpiau oedran – yr hynaf ydych chi, lleia'n y byd yw'ch gallu i ddarllen Cymraeg)
- 16 – 24 oed – 39.3% yn gallu darllen Cymraeg


## 10.2. Sgiliau yn y Gymraeg: Canfyddiadau

- Mae gan fwy o aelodau a chadeiryddion byrddau LCCau sgiliau siarad a darllen Cymraeg na phoblogaeth Cymru
- Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos mai yr ieuengaf yn y byd yw grŵp y boblogaeth, gorau'n y byd yw eu sgiliau darllen neu siarad Cymraeg. Gallai recriwtio aelodau iau gynyddu'r sgiliau Cymraeg ar fyrddau.


### Byrddau LCC





[3] Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Y Gymraeg (llyw.cymru)




**Cadeiryddion LCCau**






# 11. Ystyriaeth bellach

Mae'r data am amrywiaeth aelodau byrddau yn dangos datblygiadau cadarnhaol mewn rhai grwpiau amrywiaeth ond bod grwpiau eraill yn dal i gael eu tangynrychioli ar fyrddau cymdeithasau tai. Mae datblygiadau cadarnhaol yn cynnwys:

- Cynnydd o hyd yng nghynrychiolaeth yr hiliau ymhlith aelodau
- Sgiliau Cymraeg da o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol
- Cynnydd yng nghynrychiolaeth pobl anabl a phobl o oedran gweithio ymhlith cadeiryddion (er eu bod o hyd wedi'u tangynrychioli)

Mae'r dangynrychiolaeth fwyaf i'w gweld ymhlith y grwpiau canlynol:

- Aelodau/cadeiryddion byrddau anabl: dyma'r grŵp sydd wedi'i dangynrychioli fwyaf, ar gyfartaledd dair gwaith yn is na'r gyfran sy'n denantiaid
- Cadeiryddion sy'n fenywod: Mae cyfran y cadeiryddion sy'n fenywod wedi gostwng 9% ers 2020 ac ar hyn o bryd yn 35%.
- Cadeiryddion sy'n lleiafrifoedd ethnig: Nid oes cadeiryddion Du, Asiaidd na lleiafrifoedd ethnig
- Pobl draws – nid oes aelodau ar fyrddau sy'n uniaethu fel pobl draws

**Gallai'r argymhellion canlynol helpu byrddau i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth ar eu byrddau.**

1. Dylai byrddau adolygu a chyhoeddi eu data amrywiaeth bob blwyddyn, gan gynnwys y gymhariaeth â data'r boblogaeth leol a phoblogaeth tenantiaid a'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth.
2. Dylai byrddau gynnal y momentwm o ran cynyddu'r amrywiaeth hiliol, yn benodol drwy ganolbwyntio ar feithrin diwylliannau cynhwysol y byrddau i sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn para.
3. Dylai byrddau gymryd camau gyda'r nod o gynyddu'r aelodau sy'n perthyn i'r grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli fwyaf yn ôl eu data. Gallai hynny gynnwys:
   i. Gosod targedau mesuradwy,

ii. Gweithredu i gynyddu'r gronfa o ymgeiswyr amrywiol sy’n cael eu cyfweld ar gyfer swyddi ar eu byrddau e.e. drwy Academi Llwybr i Fwrdd

iii. Dysgu holl aelodau'r byrddau, uwch arweinwyr a phaneli recriwtio am ragfarn anymwybodol


iv. Datblygu mentrau gweithredu positif i gynyddu nifer yr aelodau amrywiol ar y byrddau, darparu cyfleoedd hyfforddi a chysgodi i aelodau iau neu aelodau amrywiol eraill o'r bwrdd.


4. Dylai byrddau barhau i fonitro amrywiaeth aelodau byrddau a bod y byrddau’n cydymffurfio â Chod Llywodraethu’r CHC ac yn gweithredu yn y meysydd lle ceir y dangynrychiolaeth fwyaf.
5. Dylai’r rheoleiddiwr gyhoeddi’r dadansoddiad hwn a thynnu sylw byrddau cymdeithasau tai ato.
6. Gall byrddau ystyried mabwysiadu neu ddefnyddio adnoddau sydd ar gael i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth gan gynnwys, er enghraifft, Recriwtio ac Amrywiaeth - Tai Pawb, Healthcheck for Boards, Deeds not Words pledge neu QED Award, Zero Racism Wales, the Race Code, Equal Power Equal Voice a mentrau eraill sy’n helpu i gynyddu amrywiaeth.


*Paratowyd y dadansoddiad a’r adroddiad hwn gan Tai Pawb ar gyfer Llywodraeth Cymru, Ebrill 2024. Mae’r holl ystadegau am fyrddau’n seiliedig ar ffigurau a ddarparwyd gan dîm rheoleiddio Llywodraeth Cymru.*

# Atodiad 1


Sgiliau yn y Gymraeg ar fyrddau, wedi’u rhannu yn ôl lefel y sgiliau.






Fluent - Rhugl
Can converse in most board-related conversations – Yn gallu siarad yn rhan fwyaf y sgyrsiau am y bwrdd
Can converse in some board-relaed conversations – Yn gallu siarad yn rhai o'r sgyrsiau am y bwrdd
Can converse in simple board-realed conversations – Yn gallu siarad mewn sgyrsiau syml am y bwrdd
Can hold a bsic conversation in Welsh – Yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg
No skills – Dim sgiliau




Full understanding of all work-related material – Yn deall pob deunydd gwaith yn llawn

Can read most work-related material – Yn gallu darllen y rhan fwyaf o ddeunydd am y gwaith

Can read some soutine work-related material with support e.g. dictionary – Yn gallu darllen rhywfaint o'r deunydd pob dydd am y gwaith gyda chymorth e.e. geiriadur

Can read simple material on everyday topics with understanding – Yn gallu darllen a deall deunydd syml ar bynciau bob dydd

Can read some basic words and phrases with understanding – Yn gallu darllen a deall rhai geiriau a dywediadau syml

No skills – Dim sgiliau